"LLENYDDIAETH Y CYMRY"
1849—1949

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

THOMAS STEPHENS
O FERTHYR

Erthyglau gan—
MAIR GREGORY, M.A.
T. OSWALD WILLIAMS, M.A.
J. MARLES THOMAS, M.A.
GOLYGYDD.
AMRYW.



Cyf. XLIX

Awst, 1949

Rhif 8

Rhifyn Dathlu Arbennig

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. R. Dennis; D. Evans; E. G. Evans, B.A.; E. O. Jenkins; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; a'r Dr. D. J. Davies, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol xlix. AWST, 1949. Rhif 8.

Nodiadau'r Golygydd.

Thomas Stephens—Yr Eisteddfodwr Mawr.

Fy mraint yma yw cyflwyno rhifyn arbennig o'r Ymofynnydd i gofio un o Gymry mwyaf y ganrif ddiwethaf. Gweddus yw cofio am Thomas Stephens y beirniad a'r llenor yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Meddai'r Parch. J. Ll. Thomas, M.A., Aberpergwm yn *Y Geninen*, Gorffennaf 1921, "Bernir na chai'r byd y fraint o fwynhau ffrwyth llafur Thomas Stephens fel ymchwiliwr i ffynhonellau hanes Cymru ac fel beirniad o'i llenyddiaeth oni bai am yr Eisteddfod". Gwir bob gair, oblegid gan mlynedd yn ôl cyhoeddwyd *The Literature of the Kymry* gan Stephens fel canlyniad union i'w eisteddfota. Bu rhai yn amau gwerth moesol yr Eisteddfod a'i chystadlu ; cofied y rhai hynny am stori Stephens, stori T. Gwynn Jones a stori R. Williams-Parry, heb sôn am stori gwŷr mwy di-nôd a gyfoethogwyd ac a gyfoethogodd ardaloedd Cymru drwy gyfrwng yr Eisteddfod. Yn ddiau y mae'r Eisteddfod yn un o ddylanwadau cymdeithasol gorau ein gwlad a gesyd anrhydedd a bri nid ar baffiwr, pêl droed-iwr neu wron maes criced, eithr dyry goron i'r bardd ac anrhydedd i lenor ac artist. Faint o weithwyr cyffredin Lloegr a ŵyr am T. S. Eliot, pwy weithiwr cyffredin yng Nghymru na chlywodd am Crwys? O gofio hynny, gwelir beth a fu cyfraniad yr Eisteddfod.

T.S.—Yr Undodwr.

Y mae'r Ymofynnydd yn cofio am Thos. Stephens yn arbennig am ei fod yn Undodwr ; gŵr yn perthyn i fudiad bychan, amhoblogaidd, cyfyngedig i ran fach o Gymru. At hynny mudiad yw a'i wreiddiau yn Ewrop bell, ei lwybr trwy Loegr draw—mudiad 'dwad' i Gymru. Eithr er gwaethaf ei amhoblogrwydd gellir

dweud heb ymffrostio fod ei arweinwyr wedi cyfrannu'n hael at swm diwylliant ein cenedl. Yn 1802 yng Nghastell Nedd cyfarfu nifer o wŷr i lunio ac arwyddo rheolau Cymdeithas yr Undodiaid yn Ne Cymru. Yn eu plith yr oedd dau ŵr arbennig iawn, neb llai na Iolo Morganwg a'r Dr. William Owen (-Pughe), F.A.S. Bu cyfnod o bardduo gwyllt ar y ddau walch yma, ond erbyn heddiw y mae'r ysgolheigion yn dechrau sobri a chydnabod iddynt wneud gwaith aruthrol o fawr. Cofier am Tomos Glyn Cothi a Gwilym Marles yr arweinwyr gwleidyddol, y Carw Coch a Charadog, arweinwyr adfywiad yr Eisteddfod yn Aberdâr, y llu ysgolfeistri dysgedig—yn eu plith Dafis Castell Hywel a oedd yn dysgu Lladin a Groeg drwy gyfrwng y Gymraeg gan mlynedd a hanner yn ôl, a chan mlynedd a hanner o flaen Ysgolion Gramadeg Cymru heddiw. A dyma sy'n bwysig i'w gofio, nid digwyddiad yw'r ffaith fod y gwŷr yma wedi cyflawni gwaith arbennig yn eu hoes. Yn ddieithriad bron gellir dangos cysylltiad clir rhwng eu Undodiaeth a'u gwaith.

I ddechrau, fel mudiad rhoisom le i'r gŵr rhyfedd ; bu ein cymdeithas grefyddol yn oddefol o syniadau gwŷr nad oedd yn ffitio i mewn i batrwm cyffredin pethau. Rhoisom gartref i'r ' cranc ', a rhown gartref iddo o hyd am y gwyddom y gall y cranc fod yn broffwyd heb ei ddeall gan ei oes a'i ardal.

Yn ail, cred gadarn yr Undodwr mewn dyn a brawdoliaeth a oedd tu ôl i safiad Tomos Glyn Cothi dros Egwyddorion y Siartiaid a safiad Gwilym Marles yn erbyn gormes landlordiaeth. Cred yr Undodwr mewn datblygiad tuag at berffeithrwydd a barodd i'r gweinidogion Undodaidd yn ddieithriad bron i gadw ysgol. Gwelent yr ysgol lle cyfrennid gwybodaeth a goleuni yn troi yn ysgol dyrchafiad dynolryw at y ffordd well a'r bywyd mwy.

Gafaelodd y Carw Coch a Charadog yn yr Eisteddfod am iddynt weld cyfle ynddi i ddyrchafu'r cain a gwella chwaeth eu cyd-ddyn. Gallai Undodiaid fel hwy gydio'n llawen yn hwyl ac asbri'r hen draddodiad Cymreig heb ofni pechu yn erbyn na Chwrdd Misol na Seiat na Synod nac un creadur piwirtanaidd arall. Ac am Thomas Stephens haws fyth yw cysylltu ei ffydd wrth ei gyfraniad a'i waith. Nid oedd dim mwy naturiol iddo na mynd at lenyddiaeth Cymru yn yr un dull beirniadol ac y dysgwyd iddo fynd at lenyddiaeth yr Iddew yn y Beibl. Aeth at wreiddiau stori Madog yn union fel yr âi at stori Jonah. Yr oedd yn ddarllenwr mawr o weithiau Miltwn, Isaac Newton, Locke a Priestly yr Undodiaid cynnar a'r beirniaid dadansoddol gwych hynny a chwiliai i'r eithaf am y gwir. Felly yntau, mewn crefydd a llên, yr un ydoedd yn cyhoeddi'r gwir yn erbyn y byd.

Thomas Stephens, yr Ysgolhaig.

Miss Mair Gregory, M.A.

Gan mlynedd yn ôl i fis Gorffennaf y flwyddyn hon daeth allan o wasg William Rees, Llanymddyfri, lyfr â'r enw *The Literature of the Kymry*, a wnaeth fwy o gyffro ym myd ysgolheictod Cymraeg yn y ganrif ddiwethaf nag odid un llyfr arall. Ei awdur ydoedd Thomas Stephens, gŵr ieuanc wyth-ar-hugain oed, fferyllydd yn nhref Merthyr Tudful, ac un o'i dinasyddion mwyaf blaenllaw. Oherwydd y llyfr hwn, daeth ef yn ysgolhaig adnabyddus yn ei ddydd, yng Nghymru ac yn Lloegr, yn Ffrainc a'r Almaen, a chyn belled, hyd yn oed, ag Awstralia a'r Unol Daleithiau.[1] Enillodd barch ysgolheigion yn y gwledydd hyn, a'i gydnabod ganddynt yn awdurdod ar lên Cymru.

Y mae'n bwysig sylwi, yn y lle cyntaf, mai fferyllydd ydoedd Stephens, a bod ganddo, felly, feddwl gwyddonol. Peth arall gwir bwysig yn ei hanes ydyw iddo ddod i'r siop yn y Stryd Fawr, Merthyr, yn llencyn pedair ar ddeg oed, heb dderbyn llawer o addysg yn ôl ein safonau ni heddiw, ond mwy, o ryw gymaint, nag a oedd yn gyffredin ymhlith gwerin Cymru yn y ganrif ddiwethaf. Bu am ryw dair blynedd yn ysgol yr Undodiaid yng Nghastellnedd, ac yno fe dderbyniodd gymaint â hynny o addysg glasurol. Eithr ni welodd Brifysgol o gwbl, ac o gofio hynny, fe synnwn at graffter ei ddeall a thrylwyredd ei ysgolheictod. Cawsai Carhuanawc fwy o lawer o addysg (yng Ngholeg Crist, Aberhonddu), eithr nid yw ef gystal ysgolhaig â Stephens. Cafodd eraill[2] yn y cyfnod addysg mewn Prifysgol, ond ni chyrhaeddodd yr un ohonynt safle Stephens ym myd ysgolheictod. Dywed ei gofiannydd ei fod yn ymhyfrydu mewn darllen ym mlynyddoedd cyntaf ei brentisiaeth, gan ymddiddori yn bennaf yn hanes a llên Cymru. Fe'i cawn yn ennill ddwy waith mewn Eisteddfodau yn 1840,[3] pan nad oedd ond pedair ar bymtheg oed. Mae'n wir mai traethodau bychain oedd ei weithiau bryd hynny, eithr dangosant i'w hawdur ddarllen llawer i ddod o hyd i'w ddeunydd.

Erbyn 1848 daethai Stephens i'w lawn dwf fel meddyliwr, a'r flwyddyn honno enillodd, yn Eisteddfod olaf ond un Cymreigyddion y Fenni, wobr Tywysog Cymru (pum punt ar hugain), am draethawd llafurfawr ar lên Cymru yng nghyfnod y Gogynfeirdd (1080—1350). Dyma'r traethawd a ymddangosodd ymhen ychydig fisoedd fel *The Literature of the Kymry*. Wrth roi ei feirniadaeth oddi ar lwyfan yr Eisteddfod dywedodd John Williams, Archddiacon Aberteifi, yn arwyddocaol iawn, fod seren newydd yn ymddangos yng Nghymru y diwrnod hwnnw. Canmolodd y traethawd, ac addefodd fod yma waith ysgolheigaidd gwych, yn wir, ei fod yn

waith gŵr nas gwelwyd mo'i debyg yng Nghymru o'r blaen yn y cyfeiriad hwnnw. Gwir a ddywedodd. Pe na bai Stephens wedi cynhyrchu dim arall, buasai'r traethawd hwn yn ei osod ar ei ben ei hun ymhlith ysgolheigion ei gyfnod. Anogodd John Williams gyhoeddi'r traethawd ar unwaith, ac yn y fan a'r lle cododd Syr J. J. Guest gan addo gwneud hynny ar ei gost ei hun yn gyfangwbl, a da ydyw i ysgolheictod Cymru iddo fod mor hael. Er i Gymdeithas Cymreigyddion y Fenni wneud llawer iawn o waith pwysig, dyma'i chymwynas bennaf hithau i ysgolheictod Cymru—rhoi ei gyfle i Thomas Stephens—a gellir dweud, hefyd, iddo ef ychwanegu at ei bri a'i chlod hi trwy dderbyn y cyfle.

Paham yr ystyrid y *Literature of the Kymry*, yn nydd ei awdur, yn llyfr mor arbennig, ar wahân i'r ffaith i Stephens dderbyn gwobr Tywysog Cymru amdano fel traethawd yn 1848? Yn gyntaf, nid oedd neb o'r blaen wedi ymdrin *yn feirniadol* â'r cyfnod y sonnir amdano yma. Ceid cyfeiriadau yma a thraw mewn llyfrau a chylchgronau ar rai agweddau ar hanes llenyddiaeth yn ystod y cyfnod, a cheid ymdriniaeth ar ambell adran mewn llyfrau megis eiddo Edward Davies,[4] ond dyma'r tro cyntaf i'r cyfnod gael ei drin yn ei grynswth gan wir feirniad. Gwelodd Cymreigyddion y Fenni fod angen am hyn, ac yr ŷm yn ddyledus iddynt hwy, yn y lle cyntaf, am osod y testun. Aeth Stephens ati a chasglodd bopeth a oedd yn ymwneuthur â hanes a llenyddiaeth y cyfnod hwnnw, dosbarthodd ei ddeunydd, darllenodd bopeth arno y gwyddai amdano ac y gallai ddod o hyd iddo. Wedi gwneud hynny, ceisiodd symud ymlaen ac ychwanegu at yr hyn a ddarllenai, neu ynteu ddangos ymha fodd y cyfeiliornasai rhai o'r awduron hynny yr ymgyngorasai â hwynt. Mae'n sicr ei fod yn berchen ar y llyfrau a ddarllenai ac y cyfeiria atynt mor aml yn ei waith—rhai Cymraeg, Saesneg, Lladin a Ffrangeg. Ysywaeth, nid oes ar gael (hyd y gwn i) gatalog o lyfrgell Stephens nac yn Aberystwyth nac yng Nghaerdydd, fel y mae o lyfrgell Carnhuanawc. Gwyddom, er hynny, fod gan Stephens fodd i brynu'r llyfrau, ac y mae'n sicr iddo'u prynu gan gymaint ei ddefnydd ohonynt a'i gariad atynt, a'i awch am ddod o hyd i bob gwybodaeth bosibl am ei bwnc. Credaf, yn ôl yr hanes amdano, fod yn well ganddo roi llyfr yn fenthyg na'i fenthyca.

Peth arall, nid mynegi syniadau byrbwyll a difeddwl a wnâi Stephens yn ei lyfr. Tystiodd ef ei hun ar goedd oddi ar lwyfan yr Eisteddfod yn 1848, wedi clywed ohono feirniadaeth yr Archddiacon a chymeradwyaeth y gynulleidfa, nad ar fyr o dro y daethai i'r casgliadau a roes yn ei draethawd, eithr i'r rheini olygu astudio a myfyrio dyfal am flynyddoedd cyn iddo'u gosod yn derfynol ar bapur. Gwyntyllodd a dadansoddodd y deunydd a ddefnyddiodd, a hynny'n bwyllog a diragfarn, yn drylwyr ac yn onest. Ei onestrwydd yw un o'i nodweddion amlycaf. Nid yw ei waith heb ei

feiau a'u gamgymeriadau—arloesydd oedd Stephens—ac erbyn heddiw, yng ngoleuni datblygiadau diweddar ysgolheictod, y mae'r mwyafrif o'i gasgliadau a'i ddamcaniaethau wedi colli eu grym. Fodd bynnag, cofiwn hyn, nad yn ôl ein gwybodaeth bresennol ni y dylem ei farnu, eithr yn ôl fel yr oedd gwybodaeth am y pynciau yr ymdriniai ef â hwynt wedi datblygu yn ei ddydd ef. Os gwnawn hyn, gwelwn fawredd Stephens a'i allu fel beirniad hanesyddol, a bod ei safonau beirniadol ef yn anfesuradwy uwch nag eiddo ysgolheigion cyfoes. Mae hyn yn dal, yn ogystal, am ei weithiau nas cyhoeddwyd. Yn wir, yr oedd yn uwch ei safonau beirniadol na neb yn y ganrif hyd oni ddeuwn at Syr John Rhŷs a Syr John Morris-Jones, y ddeuwr hyn wedi'u haddysgu yn Rhydychen. Gwnaeth Stephens ddefnydd helaeth a manwl o'r hyn a oedd wrth ei law, a beirniadodd ef â meddwl hollol agored a diragfarn. Ef, oherwydd hynny, yw arloesydd a dehonglydd yr ysgolheictod gwyddonol hwn yng Nghymru.

Eto, oherwydd ei onestrwydd a'i ymchwil ddi-ball am y gwirionedd fel y deallai ef hwnnw, ni cheir Stephens byth yn ymfflamychu. Buasai gwneud hynny'n hollol groes i'w natur ysgolheigaidd, onest ef. Gwyddys gymaint o lenorion a siaradwyr ei gyfnod a wnâi hynny, gan briodoli i Gymru ac i'w phobl rinweddau a hanes nad oeddynt yn rhan o'u hetifeddiaeth. Yn wir, am Stephens fe ddywedir ei fod yn barotach i amau nag i gredu, os oedd y profion yn gryfach o'r ochr honno. Dyna paham na fedrodd gredu i Fadog ab Owain Gwynedd ddarganfod America ; ac am mai credu hynny oedd un o hoff bethau'r ymfflamychwyr a'r ysgolheigion anonest yr aethant mor gas wrtho yn Eisteddfod Llangollen yn 1858.

Na feddylied neb, er hynny, na fedrai Stephens ganmol pan deimlai fod lle i hynny. Gwêl arbenigrwydd a mawredd rhai o'r Gogynfeirdd, megis Gwalchmai, Owain Cyfeiliog, Cynddelw a Gruffudd ab yr Ynad Coch, i enwi pedwar yn unig. Gwna ymgais ganmoladwy i'w gosod yn eu cefndir priodol. Nid gwaith bach oedd hyn bob amser, canys, yn aml iawn, braenaru'r tir a wnâi Stephens. Astudiodd lawer o'r darnau a gyfansoddwyd gan y beirdd hyn, a dengys fwy o hoffter at rai na'i gilydd—' Hirlas ' Owain Cyfeiliog, ' Gorhoffedd ' Gwalchmai a Marwnad Llywelyn gan Ruffudd ab yr Ynad Coch.

Fel y dywedwyd, yr oedd Stephens, ambell dro, yn tueddu i feirniadu'n llym. Un o'r pethau y gwnâi hynny â hwynt oedd y gynghanedd, a elwir ganddo'n "jingling nonsense"[5] mewn un man. Ni hoffai'r mesurau caeth, na chymeriadau llythrennol a geiriol ar ddechrau llinellau, na'r arfer, weithiau, o ddefnyddio'r un odl drwodd mewn darn. Credai mai llyffethair oedd hyn oll i'r beirdd. Ni ddywed mai graddol oedd twf y gynghanedd rhwng dechrau a diwedd y cyfnod yn ei lyfr, ac felly nid yw ei ymdriniaeth

â hi yn hollol deg. Eithr na fyddwn yn rhy galed wrtho, canys nid oedd bob amser yn deall cystrawen a geirfa'r beirdd. Rhaid cofio mai *hanesydd beirniadol* oedd Stephens yn bennaf dim.

Fel dogfen hanesyddol, felly, y gwêl ef bwysigrwydd barddoniaeth y Gogynfeirdd, ac o'r safbwynt hwnnw yr astudia hi, er bod ganddo, hwnt ac yma, ychydig o feirniadaeth arni fel llenyddiaeth. Oddi wrth dystiolaeth fewnol eu canu (ar waethaf ei anallu ar brydiau i'w ddeall yn iawn) tynnodd gasgliadau am safle'r beirdd mewn cymdeithas. Yr oedd hyn yn bwysig, canys trwy hynny medrodd Stephens ddangos paham y canai'r beirdd fel y gwnaent. Darganfu eu bod yn canu ar gyfer y glust, nid ar gyfer y llygad. Clywid eu gwaith yn y gwleddoedd cyhoeddus ; ac felly, pan arferid yr ail berson unigol cyferchid y noddwr ei hun, gwrthrych y gerdd, ond pan ddefnyddid y trydydd person anerchai'r bardd y gwrandawyr eraill. Llwyddodd Stephens i raddau pell iawn i ddeall y canrifoedd y canai'r Gogynfeirdd ynddynt, a chawn Syr J. E. Lloyd, mor ddiweddar â 1912, yn defnyddio'r *Literature of the Kymry* i'w gynorthwyo i lunio adrannau o'i *History of Wales*. Ceisiodd Stephens ddangos nad oedd gan y bardd yr hawl i dorri allan ar ei ben ei hun ac ar wahân i'r gymdeithas y trigai ynddi, a'i fod yn gorfod cydymffurfio â'i rheolau traddodiadol. Ond teimlai Stephens, ar yr un pryd, mai rhwystr oedd hyn iddo, yn arbennig i'r bardd mawr, am ei fod yn cyfyngu ar ei awen. Yr oedd llawer o'r beirdd yn athrawon tywysogion, ac yr oedd iddynt gysylltiad agos â'r arglwyddi a'r penaethiaid, eu noddwyr. Canent i'r gŵr hynny *yn eu dydd*, a dyna paham y mae eu cerddi yn ddogfennau hanesyddol pwysig. Chwilio am yr hanes hwnnw a wnâi Stephens wrth astudio'u gwaith.

Gwelodd, hefyd, fod tri math o feirdd—y Prydydd, y Teuluwr, a'r Clerwr, a'u bod yn y drefn honno yn eu safle cymdeithasol. Wrth ymdrin â'r Prifardd cafodd gyfle i ymdrin â Derwyddiaeth a'i chenhadwr Edward Davies, a gredai ac a ddysgai fod llawer o waith Taliesin, Aneirin a Myrddin yn Dderwyddol. Dymchwelir gan Stephens holl ddamcaniaethau'r gŵr hwnnw yn y *Literature of the Kymry* ac yn *The Gododin of Aneurin Gwawdrydd*.[6] Dangosir ganddo nad oedd Iolo Morganwg yntau yn ' Dderwydd-fardd ' gwirioneddol, eithr mewn enw yn unig. Gwrthodir ganddo gyfundrefn Morgannwg (mai tri dosbarth y beirdd oedd y Beirdd, y Derwyddon a'r Ofyddion) am nad oedd iddi sail hanesyddol. Carnhuanawc oedd yr unig un a amheuodd ryw gymaint ar Edward Davies cyn hynny, ond aeth Stephens lawer iawn pellach nag ef yn ei gondemniad o'i ddamcaniaethau Derwyddol.

Dengys hyn nad oedd ar Stephens ofn neb, waeth pwy na pha beth ydoedd. Yr oedd mwyafrif y Cymry'n derbyn y pethau a wrthodai ef mor bendant, a gwyddai y cyfarfyddai â gwrthwynebiad o bob cyfeiriad : ond ei gred ef oedd mai'r gwir a saif yn y diwedd.

Nid oedd arno ofn beirniadaeth y dorf, ac nid oedd arno ofn sefyll dros ei ddaliadau. Dengys ei hanes yn Llangollen hynny'n glir. Cyfrifid ei ddamcaniaethau newyddion yn anathema gan Ab Ithel a'i debyg, a gredai fod y damcaniaethau hynny, am eu bod yn dymchwel "the old household furniture of venerable tradition"[7] chwedl Stephens, yn diraddio Cymru yngŵydd y byd, yn arbennig adran Seisnig y byd. Credai Stephens, ar y llaw arall, fod ysgolheictod yn galw am y gwir, hyd yn oed a bod hynny'n dangos bod llawer peth, a gredid gynt, yn amhosibl i'w gredu yn ei golau hi. Meddylier, am foment, ein bod ni'n credu'n ddiysgog fod Taliesin wedi cyfansoddi dros ddeg darn a thrigain a bod rhywun yn profi bod pob darn yn ddiweddarach na'r chweched ganrif ac eithrio rhyw ychydig ohonynt ; ein bod yn credu i Aneirin gyfansoddi llawer iawn, eithr mai'r ' Gododdin ' yn unig yw ei waith dilys ; ein bod yn credu i Fadog ab Owain Gwynedd[8] ddarganfod America cyn Columbus, eithr na ellid profi iddo fynd yno o gwbl ; ein bod yn credu i Edward y cyntaf ladd beirdd Cymru, eithr mai chwedl ddiweddar ydoedd hi ; a phethau cyffelyb. Beth, tybed fuasai adwaith hyn oll arnom ni ? Pe baem yn wir ysgolheigion, fe ddarllenem yn fyfyrgar y casgliadau newyddion hyn. Ar y llaw arall, pe baem yn awyddus neilltuol i barhau i goleddu'r hen syniadau buasem yn mynd ati o ddifrif i wrth-ddweud y fath gabledd. Ond ni fedrai'r rhai a brotestiai yn erbyn darganfyddiadau Stephens eu gwrthbrofi mor bendant ag y gwnâi Stephens eu profi, ac erbyn heddiw y mae llawer o'r hyn a brofodd Stephens yn wirioneddau a dderbynnir yn gyffredinol (yn wir aeth yr ysgolheigion diweddar ymhellach na Stephens mewn rhai cyfeiriadau), ond fel arall y bu yn hanes yr hyn a ddywedodd ei wrthwynebwyr.

Yn y Llyfrgell Genedlaethol y mae casgliadau o lythyrau[9] gan wŷr blaenllaw yn eu dydd at Stephens, yn ei ganmol yn uchel am ei ysgolheictod unplyg, gonest, a'i garedigrwydd parod i lenorion ac ysgolheigion eraill a ofynnai am ei gymorth. Anfonwyd un ohonynt o'r Almaen gan Schulz, awdurdod yn ei ddydd ar y Chwedlau am Arthur ar y Cyfandir. Yn 1864 fe gyfieithodd ef *The Literature of the Kymry* i'r Ellmyneg, praw y cyfrifid gwaith Stephens yn bwysig yn yr Almaen.

Yn Saesneg yr ysgrifennodd Stephens y mwyafrif mawr o'i weithiau. Y mae hyn, i ni heddiw, yn beth chwith ac i resynu ato, ond os medrwn anghofio gweithiau ysgolheigaidd diweddar y ganrif hon canfyddwn nad oedd Stephens yn wahanol i'r rhelyw o ysgolheigion y ganrif ddiwethaf. Yn wir, Saesneg oedd iaith ysgolheictod o ddechrau'r ganrif ddiwethaf hyd at Syr John Morris-Jones (gydag eithriad yma ac acw'n unig, megis *Hanes Cymru* Carnhuanawc a gwaith Gweirydd ap Rhys). Mor ddiweddar â 1918 yn Saesneg yr ysgrifennodd Syr John Morris-Jones ei lyfr ar

Daliesin. Os darllenwn Ragair Stephens i'r *Literature of the Kymry* gwelwn paham y defnyddiodd y Saesneg :

> ". . . this ought to be an Essay more particularly directed to English readers. This is the way in which the Kymry can best serve their country, as the preponderance of England is so great, that the only hope of obtaining attention to the just claims of the Principality, is by appealing to the convictions and sympathies of the reading part of the English population. It is full time for some of us to do this ; . . ."

Ni wyddai'r Saeson am "our true literary worth". Credai Stephens y gwnâi rhoi i'r Saeson y wybodaeth hon les mawr i Gymru. Fe'n gorfodir ni i ddweud na fuasai ef wedi ennill y fath fri fel ysgolhaig onibai iddo sgrifennu yn Saesneg. Medrai sgrifennu Cymraeg raenus o'i chymharu â Chymraeg ysgrifenwyr eraill ei oes, fel y tystia llawer rhifyn o'r YMOFYNNYDD, ond gwell oedd ganddo'r Saesneg i fynegi ei feddyliau. Credai fod ganddo genhadaeth i'w chyflawni dros Gymru, ac fe'i gwnaeth yn nod yn yr unig lyfr a gyhoeddodd yn ystod ei fywyd.

Er ei allu a'i ysgolheictod y mae i waith Stephens ei wendidau amlwg i ni heddiw, rhai ohonynt y gallasai ef ei hun fod wedi'u hosgoi hefyd. Ond nid beiau cyfyngedig iddo ef ydynt, eithr rhai cyffredin yn y cyfnod. Gellir eu gweld oll yn y *Literature of the Kymry*, ac am ryw ychydig yn awr sylwir arnynt hwy ochr yn ochr â chryfder Stephens.

Un o adrannau pwysicaf y llyfr ydyw honno ar yr ' Hoianau ' a'r ' Afallennau ', a dadogid yn y *Myvyrian Archaiology* ar Fyrddin. Tybid, yn y ganrif ddiwethaf, ei fod ef yn trigo yn y chweched ganrif. Ond, yn lle mynd at y llawysgrif hynaf (Llyfr Du Caerfyrddin) am ei destun o'r cerddi, derbyniodd Stephens yr hyn a gafodd yn y *Myvyrian*, gan gredu i'r golygyddion weld bron pob llawysgrif bosibl.[10] Chware teg iddo. Dyna a gredai pawb. Eithr yn y Llyfr Du gwelsai *gnewyllyn* ' Afallennau'r ' *Myvyrian* a'r *cyfan* o'r ' Hoianau '. Hefyd nid yw'r testun sydd gan Stephens bob amser yn hollol fel y mae yn y *Myvyrian*, am iddo newid peth arno pan deimlai nad oedd hwnnw'n gywir. Dyna oedd arfer golygyddion yn y ganrif ddiwethaf, fel y ceir gweld eto, ac felly nid oedd Stephens yn waeth na hwy.

Yn ei Ragair, fodd bynnag, fe ddywed fod llawer o weithiau'r beirdd yr ymdriniai â hwynt yn yr Amgueddfa Brydeinig, "and may be seen on enquiry". A ellir credu, felly, i Stephens fynd i'r Amgueddfa a defnyddio testun a oedd yno ? Ond nid yn y fan honno yr oedd gwreiddiol yr ' Afallennau ' a'r ' Hoianau '. Dyna wendid ei ymdriniaeth. Gan iddo anwybyddu'r Llyfr Du, neu fethu ei gopïo a'i ddefnyddio, y mae ei ddamcaniaeth am ddiweddarwch y ddwy gyfres a briodolid i Fyrddin yn wannach o ryw

gymaint. Pe buasai wedi datblygu'r hyn a ddywed Carnhuanawc am y penillion ar dudalen 363 ei *Hanes Cymru*—"y mae yn ddiau gennyf, eu bod yn cynnwys rhyw faint o wir gyfansoddiad Myrddin" —yna buasai wedi dod yn nes i'w le. Ond aeth ati i brofi *nad* Myrddin oedd awdur y canu, er mwyn gwrthbrofi damcaniaethau Derwyddol y 'Celtic' Davies amdano. Collodd olwg ar y cnewyllyn a allasai fod yn waith hŷn na Phrydydd y Moch (y tadogai'r 'Hoianau' arno) a Chynddelw neu Walchmai (y tadogai'r 'Afallennau' ar un ohonynt). Buasai wedi gwneud yn well pe penderfynasai ar amseriad heb ymboeni â'r awduron. Y mae'n hynod o lwyddiannus yn ei ymdriniaeth â damcaniaethau Davies.

Yn 1801 argraffwyd cyfrol gyntaf y *Myvyrian Archaiology*, lle ceir holl weithiau tybiedig y Cynfeirdd (Aneirin, Taliesin, Myrddin a Llywarch Hen). Ddwy flynedd yn ddiweddarach cyhoeddodd Turner ei *Vindication* . . ., gan ddangos na ellid derbyn popeth a dadogid arnynt yn y *Myvyrian* fel gweithiau dilys. Er hynny, parhâi llawer o'r Cymry i gredu yn nilysrwydd y canu, ar sail llyfrau'r 'Celtic' Davies, a argraffwyd yn 1804 a 1809. Cymwynas fawr Stephens oedd cario damcaniaethau Turner ymhellach, a dangos, yn gliriach nag a wnaeth ef, y gallai tystiolaeth fewnol yr hen ganu, yn enwedig y cyfeiriadau at bersonau a digwyddiadau, brofi ei amseriad. Yn y canu hwn gwelodd Stephens olion diweddarwch, a dangosodd mai cyfeiliornad a cham â gwir ysgolheictod oedd credu mai gwaith y Cynfeirdd oedd popeth a dadogid arnynt yn y *Myvyrian Archaiology*. Yn ei *Gododin of Aneurin Gwawdrydd* dangosodd mai ffigurau hanesyddol oedd y dynion y cyfeirir atynt yn y gân honno, a thrwy hynny profodd mai yn y chweched ganrif neu ddechrau'r seithfed y trigent, ac mai yn y cyfnod hwnnw y cyfansoddwyd y gân. Dosbarthodd y canu a dadogid ar Daliesin (gan fynd gam ymhellach na Turner), a dengys mai'r unig ddarnau y gellid eu priodoli iddo ef yw'r rheini a ganwyd ganddo i Urien Rheged, Gwaith [Brwydr] Argoed Llwyfain, a Gwaith Gwenystrad a rhai darnau eraill. Y mae mwy o ddarnau ganddo yn y dosbarth hwn nag sydd gan Syr John Morris-Jones yn ei lyfr ar Daliesin. Ond ni allodd Stephens gredu i Fyrddin gyfansoddi'r 'Hoianau' a'r 'Afallennau' am fod ei brofion i'r gwrthwyneb mor gryf.

Wrth beidio â mynd at y Llyfr Du am ffurf hynaf y canu a briodolid i Fyrddin, ni wnaeth Stephens fwy o gam â'r testun nag a wnâi golygyddion eraill yr hen destunau Cymraeg yn y cyfnod. Nid aeth golygyddion llyfrau cyntaf y *Welsh Manuscripts Society*,[11] er enghraifft, at y llawysgrifau cyntaf am eu testunau hwy. Gwnaent gam, felly, â'r gweithiau a olygent. Ysywaeth, nid oedd ysgolheigion y cyfnod yn gweld, fel y gwnawn ni heddiw, mai'r llawysgrif hynaf ydyw'r orau bob amser, os na ellir profi bod llawysgrif ddiweddarach yn gopi o un hŷn na'r hynaf ar glawr. Felly, wrth gyhoeddi, yn 1852, ei gyfieithiad o'r *Gododin* . . . ni chopïodd Ab

Ithel y llawysgrif hynaf (a oedd ym meddiant Carnhuanawc, ac wedi ei farw, yn 1848, ym meddiant ei ysgutorion hyd oni phrynwyd hi gan Thomas Phillipps,[12] Middle Hill). Fe gawn Thomas Powel, Athro Cymraeg cyntaf Coleg Caerdydd, yn golygu, yn 1888, *The Gododin of Aneurin Gwawdrydd* Stephens, dros y Cymmrodorion, a Thomas Stephens, yntau, heb ddefnyddio'r llawysgrif hynaf,—er y gwyddai amdani, hefyd. Wrth sgrifennu'r *Literature of the Kymry* defnyddiodd Stephens y *Myvyrian Archaiology* gan amlaf.

Fel y dywedais, un o'i ddiffygion eraill fel ysgolhaig yw ei fod yn 'cywiro' testun, hynny yw, yn newid geiriau ynddo os cydymffurfient yn well felly â'i syniadau personol ef. Y mae hyn yn ddull hollol anwyddonol o drin testun, ond yr oedd yn beth cyffredin yn y ganrif ddiwethaf.

Y mae damcaniaeth Stephens am yr iaith Gymraeg yn beth i ryfeddu ato, ac yntau'n ysgolhaig mor wyddonol pan yw'n ymdrin â phynciau hanesyddol. Fe ddilyn William Owen [-Pughe]. Rhoesai Cymreigyddion y Fenni fel testun prif gystadleuaeth lenyddol Eisteddfod 1842—"Y sefyllfa yr hon a berchenoga y Iaith Gymraeg yn mhlith y Ieithoedd o'r hanniad Celtaidd; ac yn nghyd â'r canghenau ereill o'r cyfryw, yn mhlith Ieithoedd y llwyth Indaeg-Ewropaidd". Yn y Llyfrgell Genedlaethol y mae llawysgrifau[13] gan Stephens yn ymdrin â'r pwnc hwn, ac ynddynt fe welwn nad oedd yn deall gwyddor iaith. Ond os anfonodd y llawysgrif i Eisteddfod 1842 (a cholli), yr oedd yn ieuanc iawn (un ar hugain) a heb aeddfedu'n feddyliol eto; ond fe'n synnir wrth weld nad oedd ei syniadau yn 1848 wedi newid un iot. Cawn hyn ganddo—

> "The language of the Kymry is rich in native roots . . ."[14]

ac eto,

> ". . . the Kymraeg is an original language . . ."[15]

Ni chredai fod y Gymraeg yn ddyledus i'r un iaith arall.

> ". . . it has been capable of meeting all the requirements hitherto made of it, without being in the slightest degree indebted for foreign aid . . ."[16]

Dyma a geir ganddo ar dudalen cyntaf *Madoc*—

> "They [y Cymry] have preserved and still speak one of the parent languages of the world . . ."

Er i J. C. Prichard gyhoeddi ei *Eastern Origin of the Celtic Nations* . . . (1831), a ddangosai fod y Gymraeg yn un o'r ieithoedd Indo-Ewropeaidd, parhâi Stephens i gyhoeddi hen syniadau. Fe wyddai am y llyfr wrth ysgrifennu ei draethawd ar Fadog yn 1858, fel y tystia'r ddau gyfeiriad ato yn argraffiad Llywarch Reynolds, ond nid oes dystiolaeth o gwbl iddo'i ddefnyddio cyn hynny.

Gwendid arall amlwg yn ei waith yw ei anallu i gyfieithu gweithiau'r beirdd yn gywir. Waeth ble yr edrychwn gwna gamgymeriadau, ond y mae i'w ganmol am fentro i gyfieithu cymaint o'r newydd

ei hun. Yr oedd ef yn ymwybodol nad oedd mor gryf mewn iaith ag ydoedd fel beirniad hanesyddol, canys cawn ef yn anfon llythyr[17] at Wallter Mechain ym mis Tachwedd, 1848, yn dweud hyn :—

> "I wish you were near to assist in getting out this book, as I find it difficult to give explanatory notes to the specimens which have been translated . . ."

Ac ychydig iawn, iawn o nodiadau eglurhaol sy ganddo. Mae llawer mwy ganddo yn ei *Gododin* . . . (a anfonwyd ganddo i Eisteddfod olaf y Fenni yn 1853). Yr oedd un dyn yn ei gyfnod ef yn rhagori llawer iawn ar Stephens wrth ymdrin ag iaith—Ioan Pedr (1833—77). Eithr fel *hanesydd beirniadol* y mae Stephens yn bwysig.

Yn yr un llythyr â'r uchod ceir gan Stephens hyn—fe'i dyfynnaf i ddangos pa adrannau o'r *Literature of the Kymry* a ystyrid y pwysicaf gan ei awdur :

> "The novelties of the Essay are a dissertation on the Introduction of the Bagpipes by G ap Cynan, an attempt to show that "Hud a Lledrith a phob arddangos" at the Eisteddfod of Gruffydd ab Rhys in 1136 were an incipient *drama* like the masks and mysteries of other countries ; a long dissertation of the Bard his social position, sycophancy, learning, distinctions, &c &c ; an attempt to fix the mythological poems in the 13th and 14th century ; a critical dissertation of the Hoianeu and Afallaneu [sic] of Merddin fixing them in the reign of Llywelyn ab Iorwerth ; a disproof of the massacre of the bards ; and an identification of Ysgolan of the Twr Gwynn with St Columb[a]—exploding the old story about the burning of the books. Our Writers have done the Literature of Wales a great deal of harm by their indiscriminate zeal and want of critical sagacity . . ."

Amlwg, felly, yw y teimlai Stephens ei draed ar dir hollol ddiogel wrth ymdrin â'r pynciau hanesyddol hyn yn ei lyfr, ond wrth ymdrin ag iaith nid oedd mor sicr ohono'i hun. Defnyddiai Eiriadur Pughe yn 1848, a pheth ar un Richards, Llangrallo, yn 1853 (wrth sgrifennu ei *Gododin* . . .), ond ni chyfeiriodd at eiddo'r Dr. John Davies oddieithr i'w feio am ddyblu *d* i feddalu'r gytsain pan oedd dyblu llythrennau eraill yn eu caledu. Ond o ddarllen *Archaeologia Britannica* Llwyd y darganfu hynny. Nid oes dystiolaeth iddo ddefnyddio *Grammatica Celtica* Zeuss (1853) er iddo wneud nodiadau arno.

Ond ar waethaf ei feiau y mae'r *Literature of the Kymry* yn waith gwir fawr, am i Stephens ddefnyddio'i athrylith i feirniadu ynddo. Yn wir y mae'n "triumph of genius", fel y dywedodd ei feirniad. Am yr ochr hanesyddol y gellir dweud hynny'n onest. Torrodd Stephens dir newydd yn hanes ysgolheictod Cymru. Ni welodd yn glir bob cam o'r ffordd, eithr cyneuodd y golau fel y gallai eraill, a'i

dilynai, weled yn gliriach. Dyna'i bwysigrwydd i ni heddiw. Yr oedd wedi ei eni mewn cyfnod yn hanes ysgolheictod yng Nghymru pan allai feithrin ei feddwl gwyddonol a'i allu dadansoddol yn llawn. Yr oedd angen mawr am un a fedrai weld y gwahaniaeth rhwng y gau a'r gwir yn llên a hanes Cymru, ac yn y syniadau a goleddid amdanynt gan rai a ystyriai eu hunain yn gryn ysgolheigion. Daeth Thomas Stephens i gyflenwi'r angen. Dyna'i bwysigrwydd. Gwelodd ei gyfle pan ymddangosodd testunau hanesyddol a llenyddol Cymreigyddion y Fenni yn 1848, ac wrth anfon ei gynhyrchion iddi hi, i Eisteddfod olaf y Fenni (1853), ac i Eisteddfodau Cymdeithasau eraill, y disgyblodd ac y meithrinodd ei ddawn.

Y *Literature of the Kymry* yw'r unig lyfr o waith Stephens a gyhoeddwyd yn ystod ei fywyd (fel y dywedwyd eisoes). Ymddangosodd traethodau llai yma a thraw yng nghylchgronau'r cyfnod, megis yr *Archaeologia Cambrensis* lle y ceir erthyglau ganddo ar Daliesin a phynciau eraill. Wedi ei farw golygwyd ail argraffiad o'r *Literature of the Kymry* yn 1876, gan D. Silvan Evans, gŵr a anogodd Stephens lawer tro i sgrifennu llyfr am y cyfnod cyn y Gogynfeirdd. Dechreuodd Stephens arno hefyd,[18] eithr nis cwplhaodd ef. Yn 1888 cyhoeddodd y Cymmrodorion ei draethawd ar y *Gododin of Aneurin Gwawdrydd* ac yn 1893 ymddangosodd *Madoc* (a olygwyd gan Llywarch Reynolds). Ar wahân i'r llyfrau hyn a'r erthyglau, y mae gweithiau eraill gan Stephens o hyd mewn llawysgrif yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond nid oes dim yno a fyddai'n werth ei argraffu heddiw. Y llawysgrif bwysicaf yw'r un ar *Trial by Jury* (1853) a feirniadwyd gan y Chevalier Bunsen, yr hwn a'i hanogodd i'w argraffu. Ni wnaeth Stephens hynny, er cyhoeddi traethawd Ab Ithel (a gollodd yn yr un gystadleuaeth). Dengys yr amryfal lawysgrifau eraill ddiddordeb Stephens mewn pynciau gwyddonol, pysgota eogiaid, a thestunau hanesyddol, ond y mwyafrif ohonynt ar y cyfnodau cynharaf yn llên a hanes Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r un ohonynt yn cyrraedd gwerth y *Literature of the Kymry*, gwaith yr edrychai Stephens ei hun arno fel ei gyfraniad pwysicaf.

Dechreuasai Stephens ar ei yrfa fel hanesydd beirniadol yn 1840, ac am y deunaw mlynedd nesaf bu'n brysur iawn wrthi'n sgrifennu traethodau ar gyfer yr Eisteddfodau—gan amlaf yn ennill, ond weithiau'n colli, hefyd. Bydd rhoi rhestr o'i weithiau Eisteddfodol (ar wahân i'r rhai hynny y cyfeiriwyd atynt eisoes), yn dangos ar ba bynciau eraill yr ysgrifennai :—

1845—y Fenni : "Barddoniaeth Arwyddfeirddiol Cymru".
1848—y Fenni : "The History of Caerphilly Castle".
1850—Rhuddlan : "The Advantages of a Resident Gentry".
"A Biographical Account of Eminent Welshmen since the Accession of the House of Tudor"

"The History of Wales from the earliest period to The Present Time with an Introduction containing the history of The Migrations of the Kymry prior to their arrival in the Isle of Britain".

1851—Caerdydd : "The History of Cardiff".

1852—Porthmadoc : "The Working Men of Wales, compared with those of England, Scotland and Ireland".

1853—y Fenni : "The Names of Places in South Wales designated from Remarkable Events".
"An Analysis of the Remains of the writings of Welsh poets from the Earliest Period to the Present Times, with Reference to the Elucidation of History".

1856—Merthyr : "Sefyllfa Wareiddiol y Cymry".

1858—Eisteddfod Ddirwestol Caerdydd : "Cyflwr moesol a llenyddol Cenedl y Cymry yn y Deheubarth . . ."

Hefyd, cyhoeddodd ef a Gweirydd ap Rhys lyfr ar Orgraff yr Iaith Gymraeg yn 1859.

Felly, cynnyrch yr Eisteddfodau rhwng 1840 a 1858 ydyw gwaith Stephens, ac yn y blynyddoedd hynny y cyflawnodd bron y cyfan ohono. Y mae'r hyn a ymddangosodd wedyn yn y cylchgronau yn barhâd o'r gwaith hwnnw. Wedi'r hyn a ddigwyddodd yn Llangollen fe ddigiodd Stephens, a rhoes heibio bob cystadlu, medd ei gofiannydd.[19] Y mae'n syn iddo wneud cymaint yn ystod y blynyddoedd hyn, ac yntau wrthi'n brysur o ddydd i ddydd yn ei siop.

Nid yw ysgolheigion y ganrif hon wedi'i anghofio. Cyfeirir ato ef a'i waith gan rai ohonynt o hyd.

T. Gwenogfryn Evans : yn ei argraffiad o Lyfr Du Caerfyrddin (1907) :

"Stephens in his *Literature of the Kymry* was the first to introduce sanity into Welsh criticism and his book, if somewhat out of date, is still worth reading".

Syr John Morris-Jones : yn *Taliesin* (1918) :

"Thomas Stephens . . . by far the greatest critic in the nineteenth century . . ."

Syr J. E. Lloyd : yn ei "Sir John Rhŷs Memorial Lecture" (1928) :

"that excellent critic Thomas Stephens".

Yr Athro Thomas Parry : yn ei *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944) :

"Yr oedd Stephens, ym mhopeth a ysgrifennodd, ymhell ar y blaen i neb a fu'n trafod hanes llenyddiaeth yn y ganrif".

Nid yw'r *Literature of the Kymry*, y dethlir ei ganmlwyddiant eleni, o angenrheidrwydd, yn waith safonol erbyn heddiw, gan fod ysgolheictod yn datblygu, a darganfyddiadau newyddion yn cael eu gwneud o hyd ; ond i'r neb a fyn ddeall twf ysgolheictod yn y cyfnod rhwng William Owen [-Pughe] a Syr John Rhŷs, y mae ef a holl weithiau eraill Thomas Stephens yn ddolen fawr a phwysig yn y gadwyn.

[Cyhoeddir nodiadau Miss Gregory yn rhifyn Medi.—*Gol.*].

Thomas Stephens o Ferthyr.

Gan Y Parch. T. O. Williams, M.A.

Mab i grydd y pentre fel y diweddar Syr Henry Jones, ond heb ddysgu'r grefft ei hun fel hwnnw ; ŵyr i'r Parch. William Williams, gweinidog Undodaidd hen gapel Blaengwrach ; fferyllydd ym Merthyr ; critig modern cyn i Syr John Morris-Jones a'i gymheiriaid galluog sefydlu canonau beirniadaeth a phwyso ar dystiolaeth yn hytrach na llyncu wrth fympwy ; gŵr gonest o galon fawr yn sugno gwybodaeth fel gwenynen fêl o bob blodeuyn ; y meddyliwr a'r beirniad praff yn chwilio a chwalu tystiolaethau fel gronynnau mater wrth ei grefft ; yr ysgolor gofalus yn ôl yr hen draddodiad Cymraeg a noddwr pob mudiad dyngarol. Dyna ddarlun o Stephens o Ferthyr !

Fe'i ganed ym mhentre Pontneddfechan ar gyffin Morgannwg a Brycheiniog ar Ebrill 21, 1821 ond ni feddyliodd ei gydoeswyr fawred dyn ydoedd. Carwn feddwl fod ei dadcu wedi dechrau golymu'i feddwl ifanc cyn i'w rieni ei anfon i ysgol ramadeg Castell Nedd. Sefydlesid yr ysgol gan y Parch. David Davies, Castell Nedd ac yr oedd yn llinach ysgol glasur ei dad, yr hen Ddafis, Castellhywel. Yr athro yn amser Stephens oedd y Parch. John Davies, Ffosyffin, Cellan, a chyn-Weinidog Capelygroes yng Ngheredigion. Diddorol meddwl fod dylanwad sir Aberteifi yn drwm ar Thomas Stephens. Bu yn yr ysgol nifer o flynyddoedd cyn iddo gael ei *brentisio* yn bedair ar ddeg oed am bum mlynedd i fferyllydd o'r enw Morgan ym Merthyr. Yn un-ar-hugain oed yr

oedd yn berchen ar y siop ac yn feistr arno ef ei hun, a bu yma hyd ddiwedd ei oes. Heddiw hwyrach nid oes dim mewn bod yn ŵyr i weinidog Undodaidd ond ddoe golygai gyfle i gael addysg. Y gweinidogion Undodaidd oedd ysgolfeistri yr oes o'r blaen, ac ni ŵyr Cymru ei dyled iddynt heb sôn am ei dalu. Trwythwyd meddwl yr ŵyr bach mewn Groeg a Lladin yn ysgol Castell Nedd gan ennyn ei weledigaeth. Fel fferyllydd ar y llaw arall dysgid iddo y manylwch a'r gofal a ddangosodd yn ddiweddarach wrth drin y tystiolaethau ynglŷn a Madog, Derwyddiaeth, a Llên fore Cymru. Credaf fod a fynno ei linach a'i grefft â'i fywyd fel beirniad neu gritig.

Darllen drwy gydol dydd oedd ei fywyd a darllen yn fynych hyd oriau mân y bore, ac yn 1840 enillodd wobr yn Eisteddfod Lerpwl ar "Hanes Bywyd ac Amserau Iestyn ab Gwrgant Arglwydd brodorol olaf Morgannwg", ac yntau yn ddim ond pedair-ar-bymtheg mlwydd oed. Ni pherthyn imi yma adrodd am ei lwyddiant yn yr eisteddfodau ond dengys dau ddisgrifiad onested dyn ydoedd. Cynhygid gwobr am Hanes Madog yn darganfod yr Amerig ac ni feddyliodd pwyllgor yr eisteddfod fod amheuaeth ynghylch y peth.

"A wado hyn aed a hi
A gwaded i'r haul godi".

Ni fynnai Stephens roi clod benthyg i'w wlad a dangosodd na adawodd Madog Gymru erioed. Am eu onestrwydd ataliwyd y wobr er i'r diweddar Ganon Silvan Evans dystio o'i blaid. Ni thâl gonestrwydd yn wyneb mympwy a rhagfarn. Yn ddiweddarach gofynwyd iddo gyd-feirniadu a'r Athro David Williams o Goleg Dewi Sant, Llanbedr. Ni fynnai'r Athro gyd-feirniadu â heretic a gofynnodd iddo gwestiwn, "*Do you believe the Christian Religion to be of Divine origin*" ? Ni chredai Stephens fod hawl gan athro o Goleg Dewi Sant ei holi, ond ni chyd-feirniadodd y ddau. Ni nodir hyn ond er mwyn dangos egwyddor ei fywyd. Yn 1847 yr oedd terfysg ymhlith yr Anghydffurfwyr parthed derbyn arian oddi wrth y llywodraeth at addysg. Ofnid y buasai'r llywodraeth o gyfrannu arian yn mynnu ei ffordd gydag addysg. Dadleuid yn erbyn ar y tir hwn—"We would rather all the people uneducated than educated without belief in orthodox Christianity". Yr oedd Stephens o flaen ei oes a chredai bod addysg yn anhepcor bywyd gwerin. Gwelodd hyn yn amlwg yn ei ymdrech o blaid Llyfrgell Merthyr, y bu'n ysgrifennydd iddi am chwarter canrif.

Gosodai gymeriad a gwasanaeth yn uwch na phlaid, onid oedd fel Martineau yn geidwadwr wrth natur. Beth bynnag am hyn, yn etholiad fawr Merthyr ymgeisiai Bruce, wedi hyn Arglwydd Aberdâr, Henry Richard a Fothergall am sedd ym Merthyr yn y

senedd, a phleidiai Stephens Bruce, ond ar yr un pryd nid amheuid nad oedd yn ffrind gwir i'r gweithiwr.

Yn Chwefror 1862 aeth pwll y Gethin ar dân a lladdwyd 49 o weithwyr ynddo. Nid oedd 'Compo' chwedl y coliar, yr adeg honno ac nid oedd dim amdani ond apelio ar ran y gweddwon a'r amddifaid.

Apwyntiwyd Stephens yn ysgrifennydd y mudiad a chasglwyd saith mil a hanner o bunnau, swm fawr ond pris bach am gynifer o fywydau. Yr oedd yn ddyngarwr o galon. Cafodd nifer o anrhydeddau yn ystod ei fywyd. Yn 1858 yr oedd yn Uwch Gwnstabl Merthyr, ac yn 1864 yn gofalu am y *Merthyr Express*. Anrhydeddwyd ef â cherflun ohono ef ei hun o waith Mr. Joseph Edwards, ond ei anrhydedd pennaf oedd y pleser a gai yn ei waith. Credai yn yr Ysgol Sul fel coleg y werin a mynychai hi yn gyson. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Gapel Undodaidd Twynyrodyn, Merthyr a cholled i'r gweinidog a'r gynulleidfa oedd ei farw. Gwnaeth waith mawr ei fywyd cyn ei fod yn dair-a-deugain mlwydd oed ac ysgrifennodd ei brifwaith, *The Literature of the Kymry*, ac yntau yn ŵr ifanc wyth-ar-hugain mlwydd oed.

Naturiol cofio nad oedd ond gŵr digoleg a diddysg wrth ein safonau ni, ac yr ystyrir ei farn yn barchus gan wŷr y colegau. Edrychwn ar ei lun pwy ddydd ar y traeth ym Mae Langland gan geisio darganfod cyfrinach ei fywyd. Edmygwn ei dalcen llydan, yr olwg dawel freuddwydiol, yr wyneb golygus, y farf hir a'r cnwd gwallt, a theimlwn fy mod yn edrych ym myw llygaid gŵr mawr ac un o Undodiad mwyaf ei genedl ond nid awgymai'r llun y *bersonoliaeth*. Er mwyn ceisio ei adnabod darllenwn bregeth goffa y Parch. H. R. Williams iddo a theimlwn anwyled dyn ydoedd mewn gwirionedd. Rywsut nid oeddwn yn fodlon ar y naill na'r llall. Trois at dystiolaeth ffrind—Arglwydd Aberdâr—a theimlwn ei fod wedi ei ddarlunio fel y credwn ei fod,—

> "I value Stephens for the force of his intellect, for his courage in maintaining unpopular opinions and opposing cherished but unfounded prejudices, for his simplicity of character and genial warmth of heart and for the true friendship he showed me during the many years of our acquaintance. He was honoured by all for his high qualities and he has left a lasting mark on the literature of his time and country".

Dyma bersonoliaeth a chymeriad y dyn. Cafodd ergyd o'r parlys yn 1870 ond dihoenodd hyd Ionor 4, 1875 a gorwedd yng nghladdfa gyhoeddus y Cefn, a Merthyr hwyrach wedi hên anghofio un o'i dynion mwyaf.

"Anghenraid a osodwyd arnaf i ysgrifennu'r gwir."

Gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Merthyr.

Mae'n bosibl bod yn rhy agos i'r mynydd i'w weld, a byw yn rhy agos at ddigwyddiadau hanes i'w deall. Yr olwg bell, weithiau, a rydd yr olwg orau. Gyda threigliad y blynyddoedd yn unig y medrir pwyso gwerth rhai o ddigwyddiadau mawr y gorffennol. Felly am y proffwyd, nid oes iddo wir anrhydedd yn ei oes ei hun am ei fod yn fwy na'i oes. Dyna hanes Thomas Stephens y llenor gonest, yr Eisteddfodwr pybyr a'r Undodwr selog o Ferthyr. "Y mae ei lwyddiant diwethaf, os caniateir yr ymadrodd yn fethiant",—dyna fel yr ysgrifennodd un am dano yn ei ddydd. Heddiw rhoddir dedfryd gwahanol ar ei waith a daw y beirniad llenyddol craffus yn ei ddydd i'w barch a'i anrhydedd.

Eithr ni pherthyn i awdur yr ysgrif hon draethu barn am ei weithiau llenyddol. Perthyn yr hawl i arall. Ychydig o hanes ei fywyd ac ymgais i fesur ei gymeriad a geisir yn unig yma.

Mae'r bwthyn bach to gwellt o'r enw "Dan y Gyrchen" (neu'r Tŷ To Cam fel y'i gelwid) lle gwelodd Stephens olau dydd gyntaf erioed wedi diflannu'n llwyr a thŷ arall wedi ei adeiladu ar yr hen sylfaen. Nid oedd y dablet i gofnodi'r fan ar y tŷ pan euthum i'w weld yn ddiweddar. Bwriedir ei gosod yn ôl yn y mur eto, eithr gofaler am hynny heb ei gadael yn rhy hir.

O Bontneddfechan i lawr y dyffryn hyd at Gastell Nedd yr oedd ysbryd anghydffurfiaeth wedi aros yn ei rym oddi ar protest 1662. Un o blant yr ysbryd hwnnw ydoedd T. Stephens. Rhyw ddwy filltir o'r fan y'i ganwyd ceir heddiw olion hen gapel Blaengwrach a sefydlwyd yn 1704, ac a ddaeth yn achos Undodaidd tua 1772 o dan weinidogaeth Thomas Morgan a godwyd i'r weinidogaeth o Gefn Coed y Cymer. Yma bu'r teulu yn addoli am flynyddoedd. Eithr bodolai perthynas gwaed yn ogystal a pherthynas ffydd rhwng teulu'r bwthyn bach a chapel Blaengwrach. Bu ei dadcu, William Williams (tad ei fam) yn weinidog yno. Ei dadcu a'i fedyddiodd yn 1821.

Tlawd ydoedd amgylchiadau'r teulu, ac nid oedd dim yn neilltuol yn ei fagwraeth a dueddai i'w wneud yn gymeriad llenyddol, er bod athrylith yr hanesydd a'r beirniad yn reddfol ynddo. Pan oedd yn 12 oed aeth am dair blynedd o ysgol at y Parch. John Davies, gweinidog Undodaidd yng Nghastell Nedd. Yn fore yn yr ysgol hon profodd T. Stephens ei hun yn ddarllenwr diflino, a disgybl yn hoff o farnu drosto ei hun. Meddai R. J. J. am dano, "John Davies' most eminent pupil". Hwyrach mai ei amgylchiadau bydol, ynghyd â'r sôn a aethai ar led am alluoedd rhyfeddol yr hen

Thomas Morgan y "Meddyg gwlad" o Flaengwrach, a barodd iddo benderfynu bod yn fferyllydd yn fwy nag unrhyw gymwysderau arbennig. Gan nad beth am hynny, pan oedd yn 15 oed wele ef yn ymadael a'i ysgol ac yn dechrau gyda'i brentisiaeth o bum mlynedd fel fferyllydd yn siop Mr. Morgan, 113, High Street, Merthyr. Pan yn 20 oed daeth yn olynydd i'w feistr, ac o hynny hyd at ei farw ar y 4ydd o Ionawr, 1875 adnabyddid ef gan bobl y dref fel Thomas Stephens "y Chemist". Yn y flwyddyn 1866 ymbriododd yn eglwys y Plwyf, Llangollen â Margaret Elizabeth Davies, merch i Rhys Davies y "draper" yr hwn, yn ôl ei feddargraff oedd "Postmaster" cyntaf Merthyr Tydfil. Claddwyd gweddillion Thomas Stephens ym mynwent gyhoeddus Cefn Coed. Yno heddiw y mae'r cwbl o'r teulu yn gorwedd. Neb o'i ach yn aros ar ôl.

Eithr ni ellir cadw proffwyd mewn bedd. Os yw'r "Chemist" yn farw mae'r "llenor" yn fyw.

Y Llenor, Yr Eisteddfodwr a'r Beirniad Llenyddol.

Yn union wedi ymsefydlu ym Merthyr dechreuodd o ddifri gyda gwaith mawr ei fywyd. Nid oedd yn hollol ddieithr i'r maes llenyddol pan yn fachgen ieuanc yng Nghwm Nedd. Daeth lawer tro i gyffyrddiad â theulu parchus plasty Aberpergwm. Yno yr oedd cariad at lenyddiaeth a chân ; yno yn ystôr yr oedd trysorau o hen lawysgrifau ; yno yr oedd lloches a chroeso i'r llenor a'r bardd, ac yn eu plith yr hen Ddafydd Niclas y "Bardd teulu"—yr olaf o'i ach, yn ôl pob tebyg, yn y wlad.

Eithr wedi dod i Ferthyr y fflamiodd y ddawn lenyddol, ac y magwyd yn T. Stephens yr awydd angerddol i chwilio am y gwir ar faes hanes, llenyddiaeth, a chrefydd. Ychydig cyn ei ddyfodiad i'r dref agorwyd ysgol enwog Taliesin Williams, yr hynafiaethydd a'r bardd. Mab ydoedd Taliesin Williams i Iolo Morganwg, a chynorthwywr un adeg i David Davies yn ysgol Castell Nedd. Hwyrach i ddylanwad Taliesin ab Iolo, ynghyd ag eraill, ddeffro y peth byw yn enaid T. Stephens, ac ymgysegrodd ei fywyd i wasanaeth y gwir. Gwirionedd oedd fywyd iddo ef. Chwiliodd yn ddiflino, darllenodd yn helaeth, a beirniadai yn fanwl cyn traddodi dim ar bapur. Nodweddid ei holl fywyd gyda manyldeb, a thrwy astudiaeth galed perffeithiodd ei hun yn y reddf haneysddol, a daeth yn awdurdod fel beirniad llenyddol. Yn y cyfeiriad hwn daeth i sefyll yn y radd flaenaf, a pherchid awdur *Llenyddiaeth y Kymry* nid yn unig gan ddysgedigion y wlad hon, ond ysgolheigion y cyfandir. O 1840 hyd 1860 enillodd wobr ar ôl gwobr yn eisteddfodau'r wlad ar bynciau hanesyddol, hynafiaethol a beirniadol. Cododd "Seren Newydd" yn llenyddiaeth Cymru ym mherson a gwaith T. Stephens.

Eithr nid heb y groes. Tynged proffwyd ym mhob oes ydyw'r gwrthod. Aeth allan o ffafr yn 1860 oherwydd ei draethawd

enwog ar "Ddarganfyddiad America". Profodd nad "Madoc ab Owen Gwynedd" a'i darganfyddodd. Dyfarnwyd y wobr iddo, ond am iddo wadu y darganfyddiad tybiedig ataliwyd y wobr gan yr awdurdodau. Bu hynny yn ergyd ofnadwy i T. Stephens—nid oherwydd iddo golli'r wobr (nid er mwyn hynny yr ysgrifennai) ond am iddo ganfod i'r ymddygiad wneud niwed i'r eisteddfod fel sefydliad, ac i lenyddiaeth Cymru. Eithr ni fynnai ddial ar yr awdurdodau. 'Roedd yn ormod o foneddwr i hynny. Amser sy'n dial, a heddiw y mae Cymru yn diolch amdano, ac yn dysgu gwerthfawrogi o'r newydd ei lafur a'i waith.

Y Boneddwr, Y Dyngarwr a'r Undodwr.

Dyn syml a diymhongar ydoedd T. Stephens, yn caru'r encilion a thawelwch ei lyfrgell.

Pan fyddai'r dref yn cysgu byddai ef yn ei lyfrgell yn llosgi'r gannwyll—a llosgi a wnaeth o'r deupen cyn i haul ei ddydd fachludo. Boneddwr o'i ben i'w draed. Ni pherthynai iddo weniaeth. Dyn y bobl er mwyn y bobl ond ni fynnai byth wenieithio iddynt. Carodd y werin bobl o'i grud i'w fedd, a threuliodd ei oes i ddwyn oddiamgylch welliannau cymdeithasol. Efe oedd prif sylfaenydd y llyfrgell gyhoeddus yn y dref. Rhoddodd yn anrheg iddi dros 500 o'i lyfrau mwyaf gwerthfawr. Nid oedd dim yn digwydd na fyddai Thomas Stephens a'i ysgwydd dan y baich, a pherchid ef am gywirdeb ei feddwl.

Eithr ni chyfyngodd T. Stephens ei fywyd yn gyfangwbl i lenyddiaeth a hanes, na chwaith i achosion cymdeithasol. Credai na ellid gwahanu crefydd a bywyd, a bu trwy ei fywyd yn aelod ffyddlon, a swyddog da yn hen gapel Undodaidd Twynyrodyn. Yr oedd yn Undodwr o argyhoeddiad. Perchid ef gan bobl y tu allan i'w enwad ei hun am ei onestrwydd crefyddol. Yr oedd y llenor a'r crefyddwr ynddo ef yn un. Fel ym myd llên felly ym myd crefydd, rhoddodd astudiaeth fanwl i'r egwyddorion crefyddol, ac i'w Feibl. Cydnabyddid ef yn awdurdod ar wybodaeth feirniadol o'r Beibl, ac yn ei ddosbarth yn yr Ysgol Sul gwelid rhai o ddynion ieuainc mwyaf diwylliedig y dref. Dau gyfaill mynwesol iddo yn ei gapel a thu allan oedd John Herbert James, A.S. dros Ferthyr,—a'i weinidog ei hun—Herber R. Williams yr hwn yn ei bregeth goffadwriaethol ddywedai—"Yn ei ymofyniad am wirionedd crefyddol yr oedd T. Stephens yn wirioneddol union ac onest. Gyda dymuniad cryf i ddyfod o hyd i'r gwirionedd, daeth i fod yn Undodwr gonest proffesedig".

"Yn dawel iawn a diwyd—heb ei ail
Bu ef yn ei fywyd,
Mawr ofal gym'rai hefyd
A llwyr boen i wella'r byd".

Briwsion Bras.

Gan y Golygydd.

Tro i Bont Nedd Fechan.

Aeth Mr. John, y Cymro ifanc a'r ffotograffydd galluog sy'n llyfrgellydd tref Aberdâr, a minnau ar daith tua deufis yn ôl i Bont Nedd Fechan gan feddwl sicrhau llun hen gartref Thomas Stephens i'r rhifyn yma. Aethpwyd i Rigos gyda'r bys ac yna troi i lawr ar y dde, ar draed erbyn hyn, dros riw serth iawn i'r Cwm islaw, lle mae Craig y Dinas yn sefyll fel gwyliwr tal. Yno medd hen chwedl y mae Arthur a'i filwyr yn cysgu. Yn wir darganfuwyd ogof helaeth a llyn fawr y tu fewn i'r Graig pan syrthiodd bachgen i mewn trwy agen ar ei phen rai blynyddoedd yn ôl.

Holais un o'r ffordd dion am gartref T.S. ac fe gefais gyfarwyddyd ganddo mewn Cymraeg glân gloyw. Dywedodd wrthym hefyd fod ysgol Goffa hardd i Stephens wedi ei hadeiladu ar y Comin uwchben y pentref. Cawsom beth anhawster i ddarganfod y tŷ am fod y plât a ddylai fod ar wal y ffrynt yn llechu am ryw reswm mewn cwpwrdd yn y tŷ. Eithr nid yr hen gartref a welsom, dim ond adeilad newydd ar sail yr hen. Cawsom weld y plât ac fe'i copïais yn union fel yr oedd.

IN MEMORY OF
THOMAS STEPHENS

WRITER, CRITIC AND ANTIQUARY. AUTHOR OF
"The Literature of the Kymry"

BORN ON THE SITE OF THIS HOUSE 21 APRIL, 1821
Died 1875

THIS TABLET WAS PLACED BY
Edmund Jones, Fforest Legionis, Pont Nedd Fechan
March 1912.

Wrth ddisgwyl yn hir am haul ar gyfer tynnu'r llun daeth nifer o blant i edrych yn syn ar y ddau ddieithryn. Gan inni glywed Cymraeg gan ŵr y ffordd a gwraig y tŷ, cyferchais hwy yn iaith Thomas Stephens. Nid oedd un ohonynt yn deall gair. Mewn cyfnod byr iawn aeth Pont Nedd Fechan, cartref i Gymro mawr yn Pont Neath Vaughan, cartref i blant di-Gymraeg. Cysgodd Arthur yn rhy hir. [Yn anffodus ni allwyd cyhoeddi'r llun gan fod costau un bloc yn gymaint a chost pedair tudalen ychwanegol. Wedi petruso, bu rhaid dewis y tudalennau].

TRO I BENLAN.

Os bydd eisiau gwybod unrhywbeth, ie, unrhywbeth, gan roi ei holl rym i'r gair penagored yma ; os bydd eisiau gwybod unrhywbeth ar rywun am rywbeth yn Aberdâr, rhaid mynd am dro i weld Mr. W. W. Price ym Mhenlan. Undodwr yw yntau ac wedi ei weld wrth ei waith y mae yn haws deall rhyfeddodau Iolo Morganwg. Ni chredaf bod chwilotwr hafal iddo yng Nghymru heddiw a champ fawr ei waith yw ei fod yn drefnus ac yn dwt wrth bopeth. Byddai'n rhatach gwaith i Brifysgol Cymru anrhydeddu gwŷr fel ef na rhoi graddau Dr. ac M.A. i dywysoges a gwŷr cyfoethog na ŵyr fwy am Gymru nag a ŵyr pysgodyn am ben yr Wyddfa. Hynyna gyda llaw.

. . . Yr oedd pecyn o gardiau ar y bwrdd o'm blaen cyn imi ofyn bron, "Dyma nhw", meddai'r gŵr bach bywiog—"fe gewch brif ffeithiau bywyd Thomas Stephens i gyd ar rheina"—a ffwrdd ag ef i ysgrifennu rhagor o gardiau. Nid oes gennyf le i nodi dim namyn pigion na chofnodwyd mohonynt yn yr ysgrifau eraill.

* * *

"Ysgrifennodd T.S. dan yr enwau ' Casnodyn ' a ' Gwrnerth '."

* * *

"Meddai yn Eisteddfod Dowlais, Llun, Tach. 26, 1849 : English ought to be the language of trade and commerce and Welsh that of Poetry and Religion". Camgymeriad mawr oedd hyn eithr nid annisgwyl o gofio cred ei oes. Dyna sut yr aeth Pont Nedd Fechan yn Pont Neath Vaughan ac nid oes llawer o le i farddoniaeth Gymraeg yn yr olaf, ta beth am grefydd.

* * *

"At an Inquiry held on the 14th May, 1849 by an Inspector of the Board of Health, on receipt of a petition from the ratepayers of Merthyr to consider the propriety of adopting the Public Health Act of 1848, facts were given relating to the terrible state and insanitary conditions prevailing in Dowlais and Merthyr. Speakers disclosed that not one in 40 of the houses had conveniences. The owners objected to the adoption of the Act saying that the expense would fall on the workmen. T.S. was hooted by the workmen because he favoured the adoption of the Act. He proved later that the expenses would fall on the landlord and not on the tenants, and said that owners of properties should be compelled to make all conveniences for their tenants".

Cyn diwedd y mis hwnnw yr oedd y Colera wedi cydio ym Merthyr a chyn pen pedwar mis yr oedd 1,416 o'r trigolion wedi marw ohono.

* * *

Y deyrnged olaf. "Cymerai y diddordeb mwyaf yn yr achos lleol (Twynrodyn, Merthyr) ac fel athro yn yr Ysgol Sul".—*Y Geninen*, Gorffennaf 1921.

Datganiad Byr o Ffydd yr Undodwr.

Cynhwysir crefydd yn nau orchymyn mawr yr Iesu i garu Duw a charu dyn.

Anhepgorion y Ffydd Gristnogol yw Tadolaeth Duw, Brawdoliaeth Dyn, Arweinyddiaeth yr Iesu, Buddugolaeth y Da, Teyrnas Dduw a'r Bywyd Tragwyddol.

Eithr er ein bod yn eu coledd, na thybier ein bod yn dal yr uchod fel credo bendant, nac yn mynnu iddynt unrhyw awdurdod terfynol fel datganiad o wirionedd crefyddol. Gan gredu fod ysbryd cul dogma a chredo yn rhwystr i ddatblygiad ac i neges yr Efengyl, ni cheisiwn wasgu unffurfiaeth ar neb, eithr parod ydym i groesawu i'n cymdeithas bawb sy'n gyfrannog â ni yn ein delfrydau ysbrydol a'n hamcanion ymarferol.

Wele rai o ddelfrydau'r Mudiad Undodaidd :

Undeb ym mhob peth anhepgor ; Rhyddid, mewn popeth amheus, a Chariad ym mhob peth.

* * *

Bywyd crefyddol nid credo yn rhwymyn ac undeb rhyngom.

* * *

Rhyddid i reswm a chydwybod dyn yn yr ymchwil am y Gwirionedd ; na phlyged i awdurdod, nac ofned draddodiad, mynned y gwir.

* * *

Cymdeithas fyd-eang rhwng dynion o bob cred a ffydd ar sail yr egwyddorion yma.

Gan garu Gwirionedd, gan geisio ysbryd yr Iesu, ymunwn er mwyn addoli Duw ac er gwasanaethu cyd-ddyn.

Marwgof.

Dydd Mercher, Mai 25ain bu farw THOMAS BOTTING, B.A., B.Sc., Y.H. yn 78 oed. Bu yn nychu am fisoedd a gwelwyd y corff tal a lluniaidd yn colli ei nerth a'i egni arferol. Un o'r arwyddion cyntaf a gawsom o hyn ydoedd y gorfu iddo un bore Sul fynd allan o'r gwasanaeth cyn iddo orffen, ond un cysur mawr ydoedd yn ystod y misoedd hyn nid oedd mewn poen, a suddo yn araf a wnaeth drwy wendid a nychdod. Hawdd fyddai cyfeirio ato fel athro, darlithydd coleg, Cyfarwyddwr Addysg, Ynad Heddwch a chyn-Lywydd y Gymdeithas Undodaidd, ond ni roddai hynny inni ddarlun o'r dyn. Mewn nodyn byr fel hwn ni ellir ond cyfeirio at dau neu dri o'r nodweddion amlwg a berthynai iddo. Fel Cyfarwyddwr Addysg gosododd nod uchel iawn iddo ei hun ac ni allasai dim ei ddenu oddiar lwybr dyletswydd, ac fe ddisgwyliai'r un ymroad oddi wrth eraill ym myd addysg, ac felly nid oedd ganddo le i'r gŵr difater ac esgeulus. Rhoddodd ei hun yn llwyr i'w waith. Perthynai iddo urddas neillduol ac ni allesid agoshau ato gydag eofndra. Er

ei fod yn ddiymhongar iawn ei hun gwyddai sut i gadw'r balch ac ymffrostgar hyd braich, ond nid oedd neb yn barotach nag ef i helpu ac hyfforddi lle'r oedd gwir angen am hynny, a phrofwyd hynny gan y lliaws mawr o lythyrau a dderbyniwyd oddi wrth ffrindiau yn datgan eu dyled iddo a'u hedmygedd ohono. Yr oedd yn Undodwr i'r carn a cheisiodd fyw yn unol a hynny. Yr oedd ganddo barch diffuant i'r weinidogaeth ac yr oedd yr H.D.C. yn annwyl iawn yn ei olwg. Soniai yn aml iawn am dano ei hun fel un o blant "Ysgol Jones" ac y mai yno y gosodwyd gwir sylfaen ei addysg a chyfeiriad ei fywyd. Fe allesid dweud amdano ei fod yn urddasol heb falchter, yn fuchedd-ol heb ragrith ac yn gyfeillgar heb weniaith. Ergyd tost i'r H.D.C. ac i ardal Aberdâr yw ei golli a gwelir ei eisiau mewn llawer cyfeiriad. Cyflwynwn ein cydymdeimlad a'r weddw, a'i chwaer Mrs. Griffiths a'r perthynasau yn eu hiraeth ar ôl un oedd mor annwyl ganddynt. Bu'r angladd dydd Llun, Mai 30ain a dygwyd ei gorff i Glyn Taf a gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Jacob Davies, B.A. ac E. R. Dennis.

Nodion yr Eglwysi.

Darlledir sgwrs ar T. Stephens ar ôl y newyddion canol dydd Sul y 31 o Orffennaf.

CYFLWYNO.—Athrawes yn Ysgol Ramadeg y Barri yw Miss Mair Gregory a chyn ddisgybl i'r Athro G. J. Williams, Caerdydd. Enillodd ei gradd o M.A. gydag anrhydedd fis yn ôl am ei gwaith ymchwil i hanes Thomas Stephens.

YMOFYNNYDD Y DYFODOL.—Bu'r Ymofynnydd erioed yn fwy na phapur enwad a sicrheir hynny yn y dyfodol drwy gymorth ysgrifennwyr enwog o bob cylch o fywyd. Dyma rai o ysgrifennwyr y dyfodol agos : y Prif Athro Gwilym Bowyer ; y Canon Gwynfryn Richards ; Dr. T. Hudson Williams ; yr Athro M. B. Owen ; Islwyn ap Nicholas. Gwyliwch rifyn Medi ! Bydd ein gohebydd arbennig, 'Gwalch Ogwr' yn dechrau ar ei daith i ymweld â gwŷr blaenllaw yr enwad. Wedi darllen y gyntaf, byddwch yn gofyn, pwy nesaf ?

Adolygiadau.

DRYLLIO'R DELWAU, gan T. E. Nicholas. Gwasg yr Arad, Towyn. 5s.

Cyfrol arall fendigedig yn dangos cariad y bardd at Gymru a'i gas at Imperialaeth. Ceir llun da a rhagair gan y Parch. Idwal Jones, Pencader.

"Y LLENOR" AM YR HAF.

Rhifyn Coffa arbennig i'r Dr. T. Gwynn Jones. Archebwch eich copi ar unwaith.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYNHELIR

Cyfarfodydd Blynyddol

Y GYMDEITHAS UCHOD

Ym Mhantydefaid

Mawrth a Mercher, Awst 9 a 10, 1949

Trefn y Cyfarfodydd—

NOS FAWRTH 9FED, AM 6.30.
PARCH. D. JACOB DAVIES, B.A.
PARCH. J. MARLES THOMAS, M.A.

DYDD MERCHER 10ED.
10.30 : PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.
2.00 : ANERCHIAD Y LLYWYDD.
5.00 : Y PRIF ATHRO J. D. JONES, B.A., B.D. a'r PARCH. T. O. WILLIAMS, M.A.

Trefnir Pwyllgor YR YMOFYNNYDD *yn ystod y dydd.*

DOWCH YN LLUOEDD

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul